


“ Mae BCMS wedi rhyddhau ffigyrau cofrestru lloi ar gyfer Cymru sy'n dangos tueddiadau gwartheg eidion a llaeth yn ystod hanner cyntaf eleni. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn ddyfnach ar y ffigyrau hyn sy'n awgrymu y gallai'r cyflenwad fod yn dynn os yw cofrestrïadau lloi yn parhau i fod yn isel ar gyfer hanner olaf 2023.

Glesni Phillips - Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes



Yn ystod chwe mis cyntaf 2023, gwelwyd gostyngiad o 2% yng nghyfanswm cofrestrïadau genedigaethau lloi cyffredinol yng Nghymru o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn yn ôl. Yn ôl data diweddar, cofrestrodd Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) 223,100 o loi yn ystod y cyfnod - dros 5,000 yn llai o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn i raddau helaeth yn dilyn y tueddiadau a welwyd ar draws Prydain gyfan - mae cyfanswm cofrestrïadau lloi i lawr 2% i 1.5 miliwn pen. I Gymru, dyma'r nifer lleiaf o gofrestrïadau lloi a gofnodwyd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn (H1) ers 2019; gostyngiad a sbardunwyd gan lai o gofrestrïadau lloi llaeth.



Ar yr **ochr laeth** gostyngodd cofrestrïadau lloi llaeth benywaidd yn ystod H1 2023 yng Nghymru o 6% o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn yn ôl, tra bod nifer y lloi llaeth gwrywaidd wedi gostwng dros 20%. Mae nifer y lloi llaeth gwrywaidd wedi bod yn gostwng ers peth amser, gyda'r niferoedd yn cyfrif am ddim ond 8% o gyfanswm y cofrestrïadau yn ystod H1 (sydd i lawr o 11% yn 2021). Wrth edrych ar gyfran y lloi benywaidd yn erbyn lloi gwrywaidd; yn 2021 roedd dynion yn cyfrif am 37% o'r cofrestrïadau llaeth, ond mae'r ffigwr hwn wedi gostwng i ddim ond 30% yn 2023.

O edrych ar gofrestrïadau lloi **cig eidion** yn unig; roedd lloi gwrywaidd a benywaidd gyda'i gilydd wedi cynyddu 1.5% ar y flwyddyn i 162,940 pen, a 1.9% ymhellach yn fwy na H1 2021. Mae menywod a gwrywod cig eidion wedi bod yn cyfrif am gyfrannau cynyddol o gyfanswm cofrestrïadau lloi yn ystod y blyneddoddi diwethaf - roedd gwrywod cig eidion yn cyfrif am 37% o'r cofrestrïadau yn 2023 o'i gymharu â 35% yn 2021, ac roedd benywod yn cyfrif am 36% o'i gymharu â 34% yn 2021. Fodd bynnag, mae'r rhanriad rhwng y rhywiau wedi aros yn gymharol sefydlog.

Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant

Cynnydd yn nifer y semen rhyw yn y diwydiant llaeth oherwydd gofynion rheoli lloi llaeth, gan arwain at eni llai o loi tarw a nifer cynyddol o loi llaeth benywaidd. Dylai hyn gyfrannu at sefydlogi o fewn niferoedd buchesi llaeth. Mae niferoedd mwy o loi cig eidion hefyd yn debygol o adlewyrchu defnydd cynyddol o semen cig eidion - sy'n golygu bod mwy o gig eidion yn cael ei gynhyrchu o'r un faint o anifeiliaid bridio.

Gostyngodd nifer y lloi a gofrestrwyd a allai fod ar gael ar gyfer **cynhyrchu cig eidion** (lloi llaeth gwrywaidd a lloi cig eidion o'r ddau ryw) i'r lefel isaf sef 181,000 pen ers 2019 - er y byddai rhai o'r benywod cig eidion yn cael eu cadw fel rhai o'r buchod magu cyfnewid yn y fuches. Bydd goblygiadau yn sgil hyn i ddyfodol ein cyflenwad cig eidion yng Nghymru, ac felly bydd cofrestrïadau lloi ar gyfer H2 2023 yn cael eu monitro'n ofalus.

LEFEL Y DU;

Fe welodd cofrestrïadau lloi ar draws Prydain Fawr ostyngiad ym mhob categori - yn wahanol i Gymru a gofnododd gynnydd yn y fuches cig eidion. Gostyngodd cyfanswm cofrestrïadau lloi ym Mhrydain yn ystod H1 2023 2% ar y flwyddyn i 1.5 miliwn pen wrth i lai o gofrestrïadau gwrywod llaeth yrru'r dirywiad.

Roedd llai o gofrestrïadau benywod llaeth hefyd - i lawr 4% i 226,000 pen, tra bod y categorïau benywod a gwrywod cig eidion yn cofnodi gostyngiadau bach o 1% a 0.5% yn y drefn honno. Yn debyg i lefelau Cymru yn unig; roedd nifer y lloi a allai fod ar gael ar gyfer cynhyrchu cig eidion yn y dyfodol i lawr 2% - sy'n awgrymu y gallai'r cyflenwad fod yn dynn pe bai cofrestrïadau'n parhau yn is yn ystod H2 y flwyddyn.

AROLWG BWRIADAU FFERMWYR HCC

Pa effaith mae costau cynyddol yn ei gael ar fusnesau fferm cig eidion a defaid? Rydym ni'n cynnal ymchwil ar-lein, ac rydym ni angen barn ffermwyr i sicrhau darlun cyflawn. Cymerwch ein harolwg 10-munud a chael cyfle i ennill gwobr dalebau. CLICIWCH YMA

Monthly Market Round-Up

GWARTHEG

Prisiau – wythnos yn gorffen 16 Medi

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **263.1c/kg**. Roedd hyn:

- +1.3c ar yr wythnos flaenorol,
- +20.0c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 53.1c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 209.9c/kg).

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **469.2c/kg**. Roedd hyn:

- + 7.0c ar yr wythnos flaenorol,
- 34.8c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 466.2c/kg (+8.6c ar yr wythnos), teirw ifanc ar 459.9c/kg (+7.5c), a gwartheg difa ar 322.6c/kg (-5.3c).

Trwybwn – Awst 2023

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 218,600 pen – gostyngiad o 5% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 161,300 pen - i lawr 4% ar y flwyddyn.
 - bustych -5%, heffrod -2%, a theirw ifanc -4%.
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 346.7kg (+3.2kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 49,800 pen - i lawr 6% ar y flwyddyn.

DEFAID

Prisiau – wythnos yn dod i ben 16 Medi

Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd arwerthu yng Nghymru oedd **246.3c/kg**. Roedd hyn:

- +1.5c ar yr wythnos flaenorol,
- +22.3c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 50.8c uwchlaw'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 195.5c/kg).

Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£66.10/pen**. Roedd hyn:

- -£1.50 ar yr wythnos flaenorol,
- £5.70 uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd prisiau ŵyn pwysau marw Prydain Fawr yn 546.4c/kg ar gyfartaledd (+3.3c ar yr wythnos).

Trwybwn – Awst 2023

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.2 miliwn pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn.
- Trwybwn wyn = 1.0 miliwn pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas wyn cyfartalog = 19.6kg (-0.1kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 149,300 pen – i lawr 2% ar y flwyddyn.

MOCH

Prisiau – wythnos yn dod i ben 9 Medi

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **224.0c/kg**. Roedd hyn:

- +0.9c ar yr wythnos flaenorol,
- +21.3c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 56.6 yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 167.4p/kg).

Trwybwn – Awst 2023

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 894,500 pen – gostyngiad o 6% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 876,300 pen – i lawr 6% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch glân cyfartalog = 89.3kg (+1.9kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 18,200 pen – i lawr 8% ar y flwyddyn.

